# ECO'R WYDDFA

RHIF 6 AWST 1976 Pris 8g


## YCHYDIG YN WAHANOL

**Peidiwch, da chi, â dechrau ffonio'r golygydd i fyny i ofyn beth ar wyneb y ddaear sydd wedi digwydd i Eco'r Wyddfa y mis yma. Mae ei gynnwys a'i drefn ychydig yn wahanol – ond mae 'na eglurhad.**


**Mae'r bwrdd golygu, y cefnogwyr, y gohebwyr, y dyddiadurwraig a'r croeseiriadwr wedi cymeryd seibiant. Tra byddwch yn darllen y rhifyn arbennig yma bydd rhai ohonynt yn torheulo ar draethau euraidd gwlad Groeg a'r mwyafrif yn rhynnu yn Ninas Dinlle. Bydd colofnydd Llannerch y Llenor (Selwyn Griffith) yn rowndio'r byd – ac mae o am i mi eich sicrhau mai nid i chwilio am "stwff" ar gyfer ei golofn mae o yn mynd ac yn sicr nid ar draul Eco'r Wyddfa! Edrychwn ymlaen am hanes ei hynt a'i helyntion yn rhifynnau'r Hydref.**

**Mae ganddon ni erthyglau cynhwysfawr a diddorol iawn i'w cynnig i chi yn y rhifyn yma gan gynnwys lluniau o'r gwahanol garnifaliau a gynhaliwyd ar hyd a lled y fro.**

**I'r rhai hynny ohonoch sy'n mwynhau 'r newyddion pentrefi – peidiwch â phoeni – bydd pawb yn ôl erbyn y rhifyn nesa'. Pob hwyl i chwi i gyd dros wyliau'r haf – b'le bynnag y boch.**

**Ôl Nodiad: Ceisiodd y golygydd gael "Draenog" i fynd ar ei wyliau (neu i fynd i rywle) ond fel y gwelwch, bu'n aflwyddiannus!**

## Y.?...!*



Ydi wir, mae'r llun anarferol yma wedi'n trechu ni'n lân. Methodd bob un o Fwrdd Golygyddol Eco'r Wyddfa a gosod teitl addas iddo. Ysgwn i fedrwch chi roi cynnig arni?

Gyda llaw, llun eliffant yn ceisio mynd i mewn trwy ddrws Gwesty'r Castell, Llanberis, ydi o. Beth mae'r ddau ddyn yn ei ddeud? Beth mae'r ci yn feddwl? Dyna i chi ddau syniad am gaption yn syth.

**Gyrrwch eich cynigion ynghyd â'ch enwau a'ch cyfeiriad i'r Golygydd Gwên-y-Wawr, Llanrug cyn diwedd y mis. Bydd gwobr i'r gorau a byddwn yn cyhoeddi'r goreuon yn y rhifyn nesaf.** Os oes gan rywun yn rhywle lun anarferol fel hwn, buasai Eco'r Wyddfa yn falch o'i gael dros dro i wneud defnydd ohono. Diolch i M.B. Hughes, Y.H., Llanberis am y llun uchod.

# GAIR I GALL

*gan*

*Emlyn Davies*

Gellir dweud am nifer o wahanol ardaloedd yng Nghymru heddiw eu bod yn enghreifftiau o gymunedau sydd â'u poblogaeth yn cynyddu ond y gymdeithas yn crebachu. Ac fel un sydd bellach yn medru edrych yn weddol wrthrychol ar ddyffryn Llanberis a'r cylch, dyma'r paradocs sy'n ei amlygu'i hun i mi.

**Yn y gorffennol, diboblogi a fu'n bennaf cyfrifol am y nychdod. Heddiw, mae'r dihoeni yn digwydd oherwydd difaterwch brodorion llesg ac amharodrwydd y bobl ddwad i ymysgwyd o'u hencil esmwyth yn y canolfannau twf. Mewn sefyllfa o'r fath, gwaith hawdd fyddai codi bwganod drwy fynd ati i sôn am y diffeithwch diwylliannol sy'n rhwym o ddilyn; ond credaf mai camgymeriad fyddai mabwysiadu safbwynt un-llygeidiog felly.**

Ddwy flynedd yn ôl, roedd hi'n ymddangos y byddai Cynllun Trydan Dŵr Dinorwig yn fygythiad i Gymreictod y dyffryn; erbyn hyn gwasgarwyd y rhan fwyaf o'r amheuon a gellir dadlau bod gobaith mai'r union waith hwn fydd yn achub y sefyllfa i esgor ar ddeffroad diwylliannol cyffrous maes o law. Mae'n anorfod bod cynllun mor anferth â hwn yn mynd i drawsnewid patrwm bywyd y dyffryn, ond y trigolion eu hunain sydd i benderfynu ar natur y newid hwnnw.

Nid bod cynllun Dinorwig yn dda i gyd. Mae'n wir ei fod yn fendith amserol mewn ardal lle roedd ffigurau diweithdra fis Ionawr eleni dros bedwar ar ddeg y cant, ac mae'r Bwrdd Trydan eu hunain yn honni bod dros wyth gant o'u gweithwyr yn bobl leol. Profiad amheuthun yw gweld arwyddion pendant o lewyrch newydd yn y cylch arbennig hwn tra bo cymaint o ardaloedd eraill yn gwingo yng nghrafangau enbydus dirwasgiad. Camgymeriad yn wir fyddai bychanu gweledigaeth gadarn Iorwerth Ellis fel pennaeth y gwaith, gŵr sydd â'i wreiddiau yn ddwfn yn niwylliant Cymru. O ganlyniad i'w arweiniad sicr ef go brin y clywir sôn byth mwyach am y dylifiad estronol o weithwyr fel yr ofnwyd ar y dechrau.

### AIL ORAU

Eto i gyd, ail orau a dim arall yw'r math yma o ddiwydiant, yn gwbl anfoddhaol fel sylfaen i economi iach mewn unrhyw fro. Yn ôl arolwg manwl yn y cylchgrawn 'The Economist' yn ddiweddar, bu effeithiau tymor hir gweithfeydd fel y rhain yn andwyol ar sawl cyfrif mewn lleoedd fel Trawsfynydd, Caergybi Tanygrisiau ac Amlwch. Gadawsant byllau o ddiweithdra llawer gwaeth ar eu holau; buont yn niweidiol i'r diwydiannau traddodiadol mwy sefydlog o fewn yr un dalgylch gwaith a bu'r dylanwad ar y gymdeithas leol ymhob achos yn annerbyniol.

### CROESO AR DDWY AMOD

Wrth reswm, nid yw athroniaeth fel hyn yn debygol o fod yn gymeradwy gan neb yn y ciw dôl, ac o ddiffyg dim byd gwell mae Cynllun Trydan Dŵr Dinorwig yn rhywbeth i'w groesawu â breichiau agored. Ar ddwy amod.

Mae'r amod gyntaf yn ymwneud â thrigolion dyffryn Llanberis eu hunain. Yn ystod y misoedd nesaf hyn mae angen ymgyrch gwbl ymwybodol i gryfhau bywyd diwylliannol yr ardal. Na foed sefydlu 'Eco'r Wyddfa' yn nod ynddo'i hun, ond bydded yn hytrach yn gyfrwng i uno'r cylch ac i asio'r pentrefwyr at ei gilydd yn aelodau cyflawn o gymdeithas brysur. O'r braidd fod angen atgoffa neb bod hon yn ardal sy'n gyforiog o dalent; nid oes raid atgoffa neb ychwaith am y gannwyll a osodwyd dan lestr. Os gall ardaloedd fel Penllyn, Meirion, a Llansannan yng Nghlwyd fod yn lleoedd sy'n atseinio'n barhaus gan brysurdeb diwylliadol yna 'does dim rheswm pam na all ardal fel hon hithau ymhyfrydu yng ngweithgarwch ei chyfoeth doniau. Ond mae angen procio diwyd i ysgogi'r deffroad.

### PARHAD Y GYFLOGAETH

Yr ail amod yw bod yn rhaid sicrhau parhad y gyflogaeth yn Ninorwig pan gwblheir y cynllun. Byddai ail chwyddo ciw y dôl ar derfyn dydd yn angeuol. Ac nid problem i ddechrau ymgodymu â hi pan ddaw arwyddion y machlud dros Lyn Peris mo hon; fu cynllunio ymlaen llaw erioed mor bwysig. Profodd gweithwyr Arfon unwaith eto fel eu tadau mor ddiwyd a dibynadwy y medrant fod. Maent yn haeddu gwell, a hynny ar ffurf diwydiant sefydlog.

Mae'r sylfaen cychwynol i gymdeithas gyflawn yn nyffryn Llanberis wedi ei osod, ac adeiladu ar hwnnw yw'r her yng Nghynllun Dinorwig. O fanteisio ar y cyfle i gyflawni'r amodau, fe all Elidir unwaith eto fod yn gaer i warchod Cymreictod y gymdeithas loyw hon.

ECO'R WYDDFA

RHIF 6 AWST 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.
Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

# CAR–NIFAL CWM

**Eleni oedd y tro cyntaf i Gwm y-Glo fentro ar Garnifal Wythnos.**

Dechreuwyd ar Fehefin 26ain, ac er fod yr hin bron yn anniodd-efol o boeth, cerddwyd y 13eg milltir gan bawb a fentrodd ar y daith.

Cafwyd Cymanfa Ganu eithriadol o uchel ei safon yng Ngapel y Tabernacl y noson ganlynol. Dan arweiniad gwych Mr. Irfon Ellis, Llanberis., amryw o aelodau Cor Ferodo, cefnogwyr o'r pentrefi cyfagos a thrigolion Cwm-y-Glo, ynghyd â Pharti Gwaun Gynfi a Mr. Raymond Jones, Caernarfon, cafwyd gwledd o ganu ysbrydoledig.

Gemau pêl droed i dimau merched a thimau bechgyn gafwyd nos Lun, gyda'r "Teigrod" yn gorchfygu'r "Llewod" yn adran y merched, a thîm "Neil" oedd y buddugwyr ymhlith y bechgyn.

Noson Gymdeithasol i'r Pensiynwyr oedd nos Fawrth. Daeth Alun Foulkes a'i barti i'w diddori ar fyr rybudd. Wedi'r lluniaeth ysgafn, ymunodd y gwesteion a'r trefnwyr, yn Gymry a Saeson, yn yr hwyl, a chafwyd cymysgfa hwyliog o ganu, adrodd a storiau digrif.

Nos Fercher heriodd tîm o wŷr priod dîm o ieuenctid i gêm bêl-droed. Cafwyd gornest frwdfrydig iawn, a phrofiad y rhai hŷn a gariodd y dydd.

Chwaraewyr dartiau odd yn cymeryd rhan nos Iau – y profion cyn-derfynol a therfynol. Chwaraewyd gemau cyn-derfynol rhwng Mr. Gwilym Williams a Mr. Cledwyn Jones, a Mr. Bryn Williams a Mr Geraint Roberts. Yn y gêm derfynol enillwyd y cwpan gan Mr. Gwilym Williams yn erbyn Mr. Geraint Roberts.

Noson y mabolgampau oedd hi nos Wener, y rhain yng ngofal Mr. E.T. Jones (yr ysgolfeistr) a Mr. Emrys Hughes. Cafwyd noson bleserus.

Cynhaliwyd y Carnifal ar y Sadwrn i gloi gweithgareddau'r wythnos. Arweiniwyd yr orymdaith liwgar gan ddau barti o ddawnswyr Morris o Lanrug, gyda Seindorf Arian Llanrug yn eu dilyn. Agorwyd y Carnifal gan John Ogwen, a'r Beirniaid oedd Mr. a Mrs. I.T. Ellis, Bangor, Mrs. Eurwyn Evans, Llanrug, a Maureen Rhys. Y westeiwraig oedd Mrs. Dilys Sharp, a'r "M.C. nos Wener a'r Sadwrn oedd Mr. Lloyd Owen.

Yn ystod yr egwyl, cawsom arddangosiad o ddawnsio Morris i gyfeiliant y Seindorf, gan enethod bach Llanrug, a enillodd galon y dorf (fe'u hyfforddwyd gan Miss. Gwenan Edwards). Mwynhawyd hefyd chwarae ardderchog y Seindorf drwy'r prynhawn.

Dymuna Pwyllgor y Cae Chwarae ddatgan eu diolchgarwch a'u gwerthfawrogiad diffuant i bawb a gymerodd ran, a gyfrannodd, neu a gefnogodd mewn unrhyw fodd i wneud y Carnifal yn un mor bleserus a llwyddiannus.

**Bu i un digwyddiad anffortunus ledaenu cwmwl dros y pentref. Yn ystod yr ornest bêl-droed nos Fercher, bu i Mr. Alun Wyn Rowlands, Glan 'Rafon gael damwain, a thorri dau asgwrn yn ei goes. Er yn dal mewn cryn dipyn o boen, da gennym ddeall ei fod yn gwella, ac yn dechrau cerdded ar faglau.**

**Diolch am ei ysbryd siriol, a'i ewyllys ddi-ildio, a'r gofal mawr gan ei briod, Mrs. Iris Rowlands a'i fab, Neil.**

Mae gwroldeb yng ngwythiennau Wyn hefyd, y peth cyntaf a ddywedodd pan ddaeth allan o'r anesthetic oedd, "Wel, am goblyn o gêm dda!"

"Brysia i fendio Wyn," ydyw dymuniad pawb yn yr ardal.

STORFA

Mace

S.&E. Jones

Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD

S. JONES

CYFANWERTHWR FFRWYTHAU

(WHOLESALE FRUITERER)

Y STORFA LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2790

# LLYTHYRAU

*Llygad-yr-Haul,
Penisarwaun,
Caernarfon.*

*Annwyl Olygydd,*


*Ar ddiwedd tymor yr Haf yr oedd Mrs. R.H. Owen, Llanberis yn ymddeol o'i swydd fel athrawes yn Ysgol Gynradd Penisarwaun, wedi bron i ddeugain mlynedd o wasanaeth ymroddedig i blant y pentref.*

*Y mae'r ardal i gyd yn dymuno ymddeoliad hir a hapus iddi ac ar yr un pryd y mae'r pentrefwyr yn awyddus i ddatgan eu diolchgarwch iddi am ei gwaith clodwiw a chydwybodol, ac am ei ffyddlondeb i'r ysgol ac i'r ardal yn gyffredinol. Gan nad oedd Mrs. Owen yn dymuno cael ei anrhegu penderfynwyd mewn cyfarfod o Reolwyr yr Ysgol sefydlu cronfa i Mrs. R.H. Owen gyda'r arian yn mynd i gyflwyno rhodd i'r ysgol er cof am hir wasanaeth Mrs. Owen. Wrth reswm, gwnaed hyn gyda chaniatad Mrs. Owen.*

*Os oes ar rywun eisiau cyfrannu tuag at Gronfa Mrs. R.H. Owen, gallwch anfon eich cyfraniad i:*

*Mr. Len Jones, Prifathro Ysgol Penisarwaun, neu i un o Reolwyr yr ysgol: Mr. C. Richardson, Miss Phyllis Ellis, Mr. Ieuan Williams, Mr. James Munro a'r Cynghorydd Gwyn Oliver Jones, neu i mi.*

*Yn bur,
Patricia Larsen.
(Cadeirydd Rheolwyr Ysgol Penisarwaun.)*



*Ifas hefo Tryc nymbar wan yng Ngharnifal Cwm*

## GWERTHWR ECO'R WYDDFA



*Neil Rowlands yn hysbysebu Eco'r Wyddfa yng Ngharnifal Cwm-y-glo. 'Does dim rhyfedd fod gwerthiant yr Eco mor uchel yng Nghwm!*




*Tair o ferched dewr Cwm ar ôl dal "Jaws". Ysgwn i troed pwy sydd yn ei geg o!*

# DIOGELU EIN HETIFEDDIAETH

gan Robin Gwyndaf

**Llawenydd mawr i mi yw gweld sefydlu yn ddiweddar gymaint o bapurau newyddion lleol Cymraeg. Felly, 'rwy'n siwr, y teimla pawb sy'n caru ein hiaith a'n diwylliant. Fel y tad a'r fam sy'n caru eu plentyn, un prif ddymuniad sydd gennym ninnau : yr ydym am brofi'r wefr o gael caru ein hiaith a'n diwylliant am byth, ac y mae sefydlu'r papurau bro yn gam pwysig iawn at wireddu'r dymuniad. Y mae eu llwyddiant yn brawf fod i'r iaith Gymraeg eto mewn rhannau helaeth o Gymru nerth a rhuddin. Ond y maen nhw'n brawf hefyd fod ar gael mewn sawl bro wŷr a gwragedd sy'n fodlon gweithio'n ddiarbed i sicrhau parhad y nerth a'r rhuddin hwn.**

**Afraid dweud, felly, i mi deimlo'n falch dros ben pan glywais sôn gyntaf am sefydlu newyddiadur lleol arall : Eco'r Wyddfa.**

**Y mae gennym yn y rhan hon o Gymru ein trysor amhrisiadwy, sef ein hiaith a'n diwylliant. Hen, hen drysor a drosglwyddwyd inni gan ein rhieni a'n hynafiaid. 'Roedd yn hen yn nyddiau Llywelyn Fawr a Syr Gruffydd Llwyd, ond, fel pob gwir drysor, roedd hwn yn mynd yn fwy gwerthfawr wrth fynd yn hŷn, oherwydd i rywrai ar hyd y canrifoedd ei warchod â'r un gofal ag y gwarchoda tad ei blentyn. Fe wnaethon nhw hynny nid trwy guddio'r trysor o'r golwg, fel hen grair yn rhy frau i'w gyffwrdd, ond trwy ei iawn ddefnyddio er budd cymdeithas.**

Ac eto, er mor hen yw'r trysor, nid yw, o angenrheidrwydd, yn ddi-ddarfod. Fe fu rhyw bethau yn y gorffennol, megis cyfundrefn addysg Seisnig, a diwylliant estron yn ceisio ei ddwyn oddi arnom ac fe gollwyd peth o'r golud. Bu rhai ohonom ninnau hefyd yn esgeulus ein gofal ohono: gwerthu tir a thyddynnod ein tadau heb boeni yn ormodol i bwy; siarad, sgrifennu a darllen yn Saesneg pan allem yn hawdd wneud hynny yn Gymraeg — ac fe gollwyd mwy o'r golud.

Ond pan oedd y trysor yn prysur ddiflannu, bu i rywrai yn y fro hon sylweddoli fod yn rhaid gweithredu ar frys rhag ei golli yn llwyr ac i geisio adennill yr hyn a gollwyd eisoes. Ni ellid gwell ffordd o warchod y trysor o'r newydd na thrwy ei ddefnyddio i brynu anrheg o bapur newydd Cymraeg i wasanaethu trigolion yr ardaloedd hyn.

CYNNAL CWR Y BAICH

Thâl meddwl ddim i grogi dyn medd yr hen air. Y mae un weithred gariadus yn fwy o werth na'r bregeth huotlaf. Yn yr un modd, mae sefydlu un papur bro yn fwy o werth i ddiogelu'r iaith a'r diwylliant Cymraeg na llu mawr o anerchiadau ac ysgrifau sy'n gwneud dim namyn sôn am ei diogelu.

A gaf i, felly, yn enw holl drigolion y fro hon, ddiolch o galon i'r rhai a benderfynodd "gynnal cwr y baich", a dymuno'n dda iawn iddyn nhw yn y dyfodol. Bu cario'r pwn i'r felin yn waith go drwm ar y dechrau, 'rwy'n siwr, ond fel y cynydda'r gweithwyr i ysgwyddo'r baich, bydd y cario'n troi'n bleser.

PAPUR PAWB

A dyma ogoniant papur bro. Nid papur i ryw ychydig o'r trigolion ydyw; mae'n bapur i bawb. Y mae'n cynnig cyfle i bob un wneud ei gyfraniad, pa mor fychan bynnag fo'r cyfraniad hwnnw. Bydd rhai, efallai, yn cyfrannu'n unig drwy brynu a darllen y papur, eraill drwy gasglu pytiau o newyddion neu ysgrifennu ychydig yn awr ac yn y man. Bydd rhai yn cyfrannu trwy deipio, ac eraill drwy dynnu lluniau, casglu hysbysebion neu drefnu gweithgareddau i hel arian. Bydd rhai yn cyfrannu drwy ddosbarthu'r papur, ac eraill drwy ......... Papur yn perthyn i bawb, a phawb yn teimlo'n falch o gael gofalu amdano, gan wybod fod cyfraniad y rhai sy'n gweithio'n dawel o'r golwg yr un mor werthfawr a hanfodol i'w lwyddiant a chyfraniad y rhai sy'n ysgrifennu'r prif erthyglau.



Sgwrs ar Ffordd yr Orsaf, Llanrug.
"Be ti neud?"
"Digio"
"I be?"
"I blantio potatoes"
Dyna i chi good living Welsh ia!


E & E. M. GREEN

SIOP GRON

PENISARWAUN

Nwyddau Groser
Ffrwythau a Llysiau Ffres

*Dewis rhagorol*
*Croeso cartrefol*

BARGEINION

SPAR

6




*Plant Ysgol Gynradd Llanrug a gymerodd ran yng Nghyngerdd sefydlu Eco'r Wyddfa.*



*Plant Ysgol Dolbadarn a roddodd eitemau yn yr un cyngerdd*

# COFIO

**Tynnwch rhifyn diwethaf o Eco'r Wyddfa allan oherwydd dyma enwau Cor Cwm-y-Glo a'r Gerddorfa 1909.**

**Y rhes uchaf o'r chwith i'r dde:**
*Edward Pritchard, William H. Williams, Hughie Parry; Hughie Jones; John Roberts; David Jones; John Price; Edward Green; Harry Williams; Robert Parry; David Williams. John Davies. Hugh Parry. Richard Parry; Gruffydd M. Jones; Richard Jones.*

**Pumed rhes:**
*John R. Humphreys; William Williams; John Jones; Robert Williams; Owen Jones; Elizabeth J. Williams; Edith Jones; Achsiah Evans; Jane Williams; Katie Thomas. Owen Roberts; Gruffydd Hughes; Robert Jones. Ellis Williams; Rhichard Roberts.*

**Pedwerydd rhes:**
*Ellen Humphreys; Jennie Morris; Annie Jones; Kate Evans; Maggie Williams; Catherine M. Jones; Lydia Price; Jane Pritchard; Lizzie Roberts; Mary Morris Jones; Annie Jones; Nell Thomas; Nell Davies; Kate M. Davies; Maggie Hughes; Annie Williams; Lizzie Williams.*

**Trydydd rhes:**
*Mary Jones; Mary Williams; Maggie Hughes; Catherine Jones; Ellen Parry; Mary G. Rowlands; Lally Parry; Ruth Green; Catherine J. Jones; Mary Roberts.*
Y Gerddorfa:
*Edward Jones; William R. Jones; Harry Thomas; Maggie Lewis; Eirlys Lloyd Williams. Alun Williams; Joseph G. Thomas; G. & L.T.S.C., Robert Williams; Lily Symons; Martyn Owen; John B. Jones.*

**Chweched rhes:**
*William Rowlands; Hugh Jones; Tommy Rowlands; Evan Evans; William R. Williams; Evan H. Williams; Thomas Jones.*

**Artistiaid:**
*Mary King Sarah (Talsarn); Annie Davies (Penrhyndeudraeth); David Chubb, Harry Lewis (De Cymru); William Roberts (Bangor); Evan Lewis, Josephine Lewis (Capel Curig); Bryniog Jones (Brynsiencyn).*

# LLANRUG

**Rhown bwyslais yn y rhifyn yma ar agweddau o hanes un pentref yn unig – LLANRUG. Gobeithiwn ganolbwyntio ar hanesion pentrefi eraill mewn rhifyn arall yn y dyfodol.**

**Mae sawl un wedi cyfrannu tuag at yr erthygl a gadawn iddyn nhw ddweud yr hanes.**

## TARDDIAD YR ENW

**O ble daw'r enw Llanrug?** Enw llawn y plwyf yw Llanfihangel yn Rug. Yn yr Oesoedd Canol, yr enw a roed ar ranbarth o dir lle'r ymsefydlai nifer o bobl oedd 'tref' neu 'drefgordd'. Gallai'r dref fod yn rhan helaeth o dir ac yr oedd y trefgorddau hyn yn bwysig iawn yn hanes Cymru. Yn yr unfed ganrif ar bymtheg unwyd nifer o'r trefgorddau hyn i ffurfio 'plwyf'.

Yn ei lyfr *Description of Caernarvonshire (I8II)*, dywed yr awdur Edmund Hyde Hall - *one etymology of its name is drawn from 'rhyg', rye, from its supposed aptitude to that grain's cultivation.* Ond dywed Syr Ifor Williams yn ei lyfr 'Enwau Lleoedd', mai o 'grug' y tardd yr enw, ac y defnyddir ef fel enw benywaidd ar y lle y tyfai grug. Felly, gelwir y lle yn 'Y Rug',

### SANT MIHANGEL

Ffurfiwyd plwyf Llanrug allan o dair trefgordd, sef Y Rug, Llanfair Prysgol a Hafod y Rhyd. Efallai i'r gymysgfa ynglyn ag enw'r plwyf ddechrau oherwydd ymuno'r trefgorddau hyn; mae un enw yn cyfeirio at 'grug', a'r llall at 'rhyg'. Y Rug oedd y drefgordd bwysicaf o'r dair oherwydd mai yno yr oedd yr eglwys. Yn naturiol felly, galwyd y plwyf, a oedd yn uned ddaearyddol eglwysig newydd, ar ôl y sant y cyflwynwyd yr eglwys iddo, sef Sant Mihangel. Felly yr enw newydd oedd Llanfihangel yn Rug. Yn ddiweddarach daeth y plwyf i'w alw'n Llanrug, cyfuniad o'r hen a'r newydd.



Cwmni Llanrug gyda'r ddrama "Hirnos a Gwawr"



Llun o gwmni drama Llanrug yn eu gwisgoedd cyn perfformio'r ddrama 'Hwyrnos a Gwawr'.

**Dyma i chi ddeunydd diddorol a yrrodd Mr. Emrys Owen, Bro Rhyddallt, Llanrug i'r Eco.**

**Wyddoch chi fod yna siop fferyllydd (chemist) yn Llanrug unwaith? Na wyddoch? Darllenwch ymlaen.**

**Gwelwch isod safleoedd lle cynhaliwyd rhyw fath o fusnes ynddynt:**

Groeslon Marc Stores
Siop Mary Hughes, yn 2 Llain Gro Crydd Bach Waun, yn y cwt sinc lle mae Garej Minffordd.
Regent House;
Y Storfa (Siop Storer)
Dafydd Pritchard Crydd – ar safle Gwilym Jones, Stone Mason;Siop May Ann Owen – Madryn; Co-op.; D. Haden Griffiths, dilladau etc. – siop Wavell Roberts y cigydd; Bob y Barbar – Idan House; Robert Jones Bwtsiar – Gwynfa; Evan Evans, Clocsiwr – Gwynllys; William Evans – papurau dyddiol – Wern; Siop Pant Ifan Ironmonger – Glasfryn; Siop Newydd – Tŷ Fry; Voelas House; Mr. Hobley – Fferyllydd – Castle View; William Roberts – Bwtsiar – Fron Hyfryd; Siop Becar– Bryn Awel; Harry Parry Barbar – 1, Disgwylfa Terrace; Siop Eryri – T.V. Stores; Siop Bont – tŷ y Siop Chips.

Yr oedd pob un o'r siopau hyn ar y ffordd o'r Groeslon Marc i'r Post ac i lawr i Bontrythallt. Siop arall oedd heb fod ar y ffyrdd hyn oedd – The Mametz Stores – Hermon Terrace.

Beth am eich pentref chi? Dyma faes ymchwil bach reit diddorol ynte? Beth amdani?

# TIPYN O HANES Y DDRAMA

Yr oedd gennyf yn fy meddiant ddarlun o gwmni drama Llanrug ac hefyd cwmni Pontrhythallt yn y gwisgoedd oedd ganddynt yn perfformio, a phan gefais ddarlun arall o gwmni Llanrug yn eu gwisgoedd cyffredin meddyliais y buasai ychydig o hanes y ddrama yn y pentref o ddiddordeb i ddarllenwyr hynaf Eco'r Wyddfa ac yn agoriad llygaid i'r rhai ieuengaf i beth oedd yn cymeryd lle yn y pentref cyn dyfodiad y radio a'r teledu.

Gyda help cyfeillion yr ydwyf wedi gallu casglu enwau y cwmni hyd at 2 ferch a dau fab. Efallai y gall rhywun lanw'r bylchau. Defnyddir y darlun a hwythau yn eu dillad cyffredin.

Rhes flaen: John Williams, Ty'n Winllan; William Ellis, Rhos Elan; ...?; Miss Laura G, Roberts, Fron Helyg.
Rhe 2: ...?; Miss Sarah Roberts, Fron Helyg; Robert J. Roberts, Fron Helyg; ...?; Owen Thomas, Rhianfa; H.M. Williams, Tyddyn Rhythallt.
Rhes 3: Evan Roberts, Fron Helyg; Parch. Rt. Parry (Gweinidog) Llys Eiddon; Richard Ellis, Rhos Elan; David Jones, Fron Deg; Harry Roberts, Fron Helyg; Owen Ellis Jones.
Rhes uchaf: John Morris Owen, Llain Delyn; Griffith Griffiths. Ddôl Helyg; John Griffiths, Ddôl Helyg; ...?; John Arfon Williams, Bryn Awen.

Nid ydwyf yn sicr o flwyddyn y Perfformiad cyntaf gan y cwmni ond wrth geisio gweithio yn ôl o oedran fy mam – sef Laura G. Roberts, credaf mai un ai yn 1901 neu 1902 y bu. Yn ôl tystiolaeth Robert Roberts, Fron Helyg, yn hen Ysgol Glanmoelyn y llwyfanwyd y ddrama. Yn ôl ei dystiolaeth ef hefyd bu'r cwmni yn perfformio mewn aml i bentref cyfagos. Byddai aelodau'r cwmni yn trafeilio – y rhai hynaf gyda Brake Richard Williams (Dic Salmon, fel y gelwid ef y pryd hynny) a'r rhai ieuengaf gyda'u beics. Pan oedd yn rhaid mynd â chelfi gyda hwy byddai'r rhain yn cael eu cludo mewn trol a'r rhan amlaf gyda ceffyl a throl Tyddyn Rhyddid, ac yng ngofal Owen Roberts. Ni wn a fu i'r cwmni lwyfanu ychwaneg o ddramâu, ond cariwyd y traddodiad ymlaen gan gwmni Capel Pontrhythallt, a chawn hanes y cwmni yma mewn rhifyn arall o'r Eco.

Dymunaf ddiolch i gyfeillion am help i gael enwau rhai o'r cwmni.


Bu yna gwmni yn yr Eglwys ac efallai fod yna rywun a allasai gofnodi peth o'i hanes.

*Emrys Owen,*
*51, Bro Rhuddallt.*

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

*gan Mary Lloyd Williams.*

**Daeth i'm cof beth amser yn ôl, am gyfarfod i anrhegu'r diweddar Mr. John Morris Jones, Hedsor Villa, Llanrug, ar ei ymddiswyddiad yn 1936 o fod yn arweinydd y gân ym Mhontrhythallt M.C., wedi chwarter canrif o wasanaeth gwerthfawr.**



**Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr. Tom Owen, Bungalow. Ar ôl cael gwledd wedi ei pharatoi gan chwiorydd ieuainc yr Eglwys, cyflwynwyd cadair esmwyth hardd i Mr. J. Morris Jones, fel arwydd o werthfawrogiad yr Eglwys o'i wasanaeth gyda chaniadaeth y cysegr o 1911 hyd 1936 Rhoddwyd tystiolaeth uchel i wasanaeth Mr. Jones gan amryw.**

**Yn eu plith yr oedd Mri. Griffith Elias Pritchard, Bron Eryri, yntau wedi derbyn awrlais hardd gan yr eglwys am ei wasanaeth ffyddlon fel cyfeilydd o 1907, blwyddyn agor y capel, hyd 1931; W. Jones, Bron Wylfa; J. Iorwerth Roberts, Isgaer; Tom Jones, Tyddyn Rhythallt; J.O. Ellis, Cartrefle; Humphrey Owen, Isallt; R.T. Griffith, Penybuarth. Cafwyd adroddiadau gan Mr. Richard Lloyd, Porthaethwy a Mr. Meurig Owen, Isallt. Hefyd cafwyd anerchiadau barddonol gan Mrs. Williams Arfryn; Mrs. Owen (Miss M.M. Jones gynt), Tyddyn Rhythallt; Mr. Tom Jones a Glan Rhythallt. Trist yw sylweddoli fod y mwyafrif o'r cymeriadau annwyl hyn yn huno ers blynyddoedd bellach.**

### ANERCHIAD OREUREDIG

Bu John Morris Jones yn arwain y gân yng Nghwmyglo am tua deuddeng mlynedd. Ar ei ymadawiad i ardal y Glasgoed cyflwynwyd anerchiad oreuredig iddo gyda darlun o hen gapel M.C. Cwmyglo arni.

### ARWAIN Y GÂN YN GLASGOED

Wedi symud i'r Glasgoed galwyd arno unwaith yn rhagor i arwain y gân yno eto ac ufuddhaodd fel cynt. Yn ystod y rhyfel byd cyntaf bu am gyfnod yn Northwich ac yno eto bu yn arwain y gân yn yr achos gynhelid gan y Cymry. Tra yn y swydd ym Mhontrythallt cafodd ei ddewis yn arweinydd cerddorol Cymanfa Ysgolion M.C. Dosbarth Caernarfon a chafodd gymanfa lwyddiannus iawn.

Fel hyn y canodd fy nhad ar yr amgylchiad uchod Ionawr 1937:

**John Morris heb gamwri — nac anair**
**I gadair ga'i godi:**
**Am ei hwyl gyda'r moli,**
**Clywed yn awr ein clod ni.**

**Ei fwyn denor fu'n denu — ein prinion**
**Sopranos i ganu:**
**Swyn i fas yn Seion fu**
**Fel telyn i fawl teulu.**

**Tawel yr ymneilltuodd — ein gwron,**
**Ei goron a gadwodd:**
**O'i wyllys gwnaeth a allodd**
**Heddiw 'i ran yw hedd a rhodd.**

***Glan Rhyddallt.***




**Wyddoch chi fod trigolion o'r ardal sy'n byw 'nawr dros Glawdd Offa yn cymeryd diddordeb mawr yn Eco'r Wyddfa. Cymerwch Mrs. Annie Catrin Williams, o Sŵn y Môr, Waterloo Lerpwl, er enghraifft. Bod Iestyn, Cwm-y-Glo oedd ei hen gartref ac yn wraig i'r diweddar Hugh P. Williams (Hen Par). Gyrrodd y llun a'r wybodaeth yma i ni am Fand Llanrug yn ymarfer yng Nghastell Bryn Bras yn y flwyddyn 1908.**

# *Cysylltiad Syr John Morris Jones â Llanrug*

**Wyddoch chwi fod teulu Syr John Morris Jones yn tarddu o Lanrug? 'Roedd hen, hen daid Syr John Morris Jones yn byw yn yr Hafod, Llanrug, ar ôl iddo symud yno i fyw o blwyf Dolwyddelen tua chanol y ddeunawfed ganrif.**

Ei enw oedd John Maurice, ac yr oedd yn fab i Meurig ap Siôn; yntau'n fab i Siôn Amheurig. Yn ôl y diweddar Bob Owen, Croesor, yr oedd yn hanu o uchelwr o'r enw Bleddyn Llwyd, yr un cyff teuluol ag y perthynai John Jones, Talsarn iddo. Gellir gweld felly o ble daeth yr enw 'Morris' i'r teulu — Meurig yn troi'n Maurice ac wedyn yn troi'n Morris.

Ganed mab i John Maurice a alwyd yn Morris Jones. Ceir ei hanes yn *Hanes dechreuad a chynnydd yr achos crefyddol yn y Ceunant* gan Robert Parry, Caernarfon. Dywedir ei fod yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd gweddi. Yr hen enw ar Hafod oedd Tŷ Ucha. Yn ôl Syr John Morris Jones, *Hafod was bought by Peter Bailey Williams...so my great grandfather had to move to Eithin Duon, a farm belonging to Christ Church College, I believe.* Ond yr oedd yn camgymeryd yn hynny o beth; oherwydd rhoddwyd y ffarm hon gan John Hughes, Canghellor Eglwys Gadeiriol Bangor, yn 1543 i Goleg Magdalene, Caergrawnt i sefydlu ysgoloriaeth. Yr oedd David Morris, brawd ieuaf i daid Syr John Morris Jones yn byw yn Eithin Duon hyd at tua 1892. Bu Morris Jones farw yn 1859.

### YSGRIFENNU YN SAESNEG

Mab i Morris Jones oedd John Morris, a anwyd yn 1799. Yn 1823 priododd â Lydia Parry, ac ymgartrefu ym Mhenhafodlas, Ceunant. Chwarelwr oedd wrth ei alwedigaeth. Ganed iddynt saith o blant. Y mab hynaf oedd Morris Jones, a bu am gyfnod mewn ysgol yn cael ei chadw gan Gwilym Padarn a Peter Bailey Williams. Pan fu farw ei dad yn 1836, bu'n rhaid i Morris Jones, yn fachgen tair ar ddeg oed, adael yr ysgol a mynd i weithio i'r chwarel. Ond erbyn 1847 yr oedd amgylchiadau'r teulu wedi gwella, ac yn y flwyddyn honno aeth i Ysgol y Bala at Lewis Edwards a John Parry. Ar ôl hynny bu am gyfnod yng Ngholeg Borough Road, Llundain. Yr oedd brawd i Morris Jones, sef John, yntau hefyd yn bur anfodlon ar ei fywyd yn y chwarel, a cheir hanes amdano yn ceisio mynd i ysgol yn Holt. 'Roedd brawd arall, William yn hoff o ddarllen, a dywed mewn llythyr at Morris:

*I have had a very good hint in the Library of Dinorwic. I shall have lending any book I like, and that for nothing. There are great many of expensive books. But I did not have leisure to look over but few of them. I have lending 'Holy living and dying', an old edition worth 7/-, and I had Pearson's 'Infidelity'.* Sylwer mai yn Saesneg yr ysgrifennwyd y llythyr, ond ymhlith y casgliad ceir un llythyr yn Gymraeg, oddi wrth William at Morris: "Paid â rhyfeddu fy mod yn ysgrifennu yn Gymraeg y tro hwn atat. Y mae arnaf ofn gollwng yn angof ysgrifennu Cymraeg. Byddai well gennyf ollwng hynny o Saesneg sydd gennyf na'r hen iaith."

### ELIZABETH ROBERTS

Ar ôl gadael Coleg Borough Road, Llundain, aeth Morris Jones yn athro i Ddwyran, Sir Fôn, ond gan mai bychan oedd y cyflog, aeth i gadw siop i Drefor, Sir Fôn. Daeth Elizabeth Roberts o Lanrug i gadw tŷ iddo, ac mewn amser, priododd y ddau. Merch i William Roberts, Tai Newyddion, Llanrug oedd Elizabeth, ac yn ôl Syr John Morris Jones, yr oedd 'yn dipyn o fardd, ac yn areithiwr doniol ar ddirwest.' Mae'n amlwg fod Syr John Morris Jones yn hoffi meddwl mai o ochr ei fam y cai ei ddawn lenyddol: *If there is anything in the law of heredity, I must have inherited from my mother what literary qualities I may possess. She was certainly endowed with some artistic and what might have been literary taste if it had been trained.*

Felly 'roedd teulu tad a mam Syr John Morris Jones yn hanu o Lanrug. Tybed a oes perthnasau pell yn aros yma heddiw? Byddai'n ddiddorol cael gwybod. 'Sgwn i a oes rhywun yn gwybod rhywfaint o hanes y Llyfrgell o Ddinorwig? Ymhle'n hollol yr oedd, a beth ddigwyddodd iddi?

Os oes gennych unrhyw wybodaeth bellach, anfonwch ataf yn ddi-oed.

*David Whiteside Thomas*


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans



*CARNIFAL LLANRUG*
*"Bunny Boys" Llanrug yn mwynhau pob eiliad o'r perfformans!*



*Un o drigolion anwylaf yr ardal a gadwodd lygaid ar weithgareddau pob pentref yn y fro yn ystod y mis a aeth heibio. Galwa heibio, Bob, — mae pawb yn falch o dy weld.*



*Mabolgampau Penisarwaun — y gystadleuaeth fwyaf anarferol a gymerodd le yn yr ardal yn ystod y mis hwn. Cystadleuaeth taflu "wellington". Anarferol neu beidio — profodd yn gystadleuaeth lwyddiannus dros ben.*



*Ras y mamau ym mabolgampau Penisarwaun.*



*Tydi Mr. David Jones, Maes Eilian, Dinorwig yn edrych yn fodlon braf. Does dim rhyfedd, — fe briododd Mrs. Jennie Williams — dim ond ar gyfer y Carnifal yn Neiniolen, cofiwch! Iona Wyn Williams yw'r forwyn.*



*Aelodau o'r ddau dîm rhyfedd a gymerodd ran yn y gêm bêl droed ryfeddol ar faes chwarae Ysgol Brynrefail.*

*Cefnogwyr bach tîm mawr Cwm-y-glo yn codi hwyl yn y Gemau Giamocs.*






*Tîm Llanrug yn arddangos tlws Eco'r Wyddfa a Tharian Mr. Bobby Haines ar ôl eu buddugoliaeth fawr.*



*Dyma'r dyn oedd yn dychryn pawb yng Ngharnifal Deiniolen. Pwy oedd o? Gwilym Roberts, Pentre Helen.*



*Rhan o'r dorf a ddaeth i flasu awyrgylch y Gemau Giamocs yn Llanberis.*



*Rhedwyr ifanc Bethel ar gychwyn yn un o gystadleuthau Mabolgampau'r pentref.*

# YN EISIAU: MAM

**Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd yn chwilio am gwpl priod sy'n awyddus i gynnig cartref cartrefol, normal i bedwar plentyn o dan anfantais meddyliol**

**Fe gai'r cwpl dŷ di-rent ac fe gai'r wraig, a fyddai'r famaeth, ei thalu ar raddfa tra atyniadol am gartrefu'r pedwar. Byddai'r gŵr yn cadw at ei waith arferol ond at y nos a thros y penwythnos fe ddisgwylid iddo fod yn dadmaeth i'r plant.**

### AR UNWAITH

Mae Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd yn barod i roi ar unwaith lwfans i'r famaeth a benodir fel y medr gael ei hyfforddi rhyw gymaint ar gyfer yr adeg y bydd yn sefydlu cartref i'r pedwar plentyn yn ei thŷ newydd.

Rhan yw'r bwriad hyn o ddymuniad Gwynedd i symud bechgyn a merched dan anfantais meddyliol o ysbytai a chartrefi os medrir rywsut a rhoi cyfle iddynt gael bywyd llawnach drwy eu gosod fel aelodau o deuluoedd a rydd iddynt serch a gofal personol.

### AWYDDUS

Mae'r Cyngor Sir yn awyddus hefyd i ddod i gysylltiad â theuluoedd sydd ganddynt ddiddordeb mewn trafod y posibilrwydd o roi cartref i un neu fwy o blant o dan anfantais meddyliol.

Os oes gennych ddiddordeb yn un o'r posibiliadau uchod, wnewch chi gysylltu â: Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Gwynedd, Swyddfa Maesincla, Caernarfon Neu ffoniwch Mr. T. R. Frost yn Caernarfon 4441 (Estyniad 20) a fydd yn barod iawn i drin y mater efo chi.

### MARW GWEINIDOG

Bu farw y Parch. Robert Wynne Richards, Efrydfa, Llanfairfechan, yn frawychus o sydyn ar yr 8ed o Orffennaf. 'Roedd ei deulu yn dod o'r "Bonc" Llanrug, ac yn gefnder i Mr. Nathan Jones, Bryn Hyfryd, Penisarwaun. Bu'r Parch. Robert Wynne Richards yn pregethu llawer yn ardal Deiniolen a Llanberis.

Mae cydymdeimlad yr ardal gyda'i weddw.

# Cronfa Goffa Wmffra Roberts

**£1.00:**
Maggie Roberts, Carmel; Mr. & Mrs. J.I. Jones, Tywyn; Meg. Elis, Bangor Uchaf; Eric Jones, Pontllyfni; Noelle Davies, Iwerddon; Tegid ap Gruffydd, Treffynnon; Huw Williams, Talysarn; R. & M. Jones, Penygroes; Mr. & Mrs. I. Pierce, Llanrug; H. Wyn Elias, Pwllheli; Mrs. Jane Jones, Groeslon.
**£1.50:**
Geoffrey King, Bethesda.
**£2.00:**
Mr. & Mrs. H. Owen, Bontnewydd Stephen Breeze, Bontnewydd; Mr. & Mrs. W. Williams, Talysarn; Gwenda Williams, Talysarn, Malcholm Llywelyn, Merthyr; E. Lloyd Morris, Caerdydd; Robin Griffith, Caerdydd.
**£2.50:**
Mr. & Mrs. Ifor Efans, Groeslon.
**£3.00:**
Evan Jones, Caerffili; John & Ann Owen, Llanberis.
**£5.00:**
Mr. & Mrs. J.W. Elis, Nant Peris; Mr. & Mrs. Dewi Tomos, Rhostryfan; Dafydd Orwig, Bethesda; Cassie Davies, Tregaron; Mr. & Mrs. A. Hughes-Jones, Groeslon; Mrs. Kate Roberts, Penygroes; Ifanwy Williams, Caernarfon; Mrs. A. Evans, Llannor; Gwynfor Evans, A.S.; Pwyllgor Rhanbarth Dwyrain Fflint; Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin Dinbych; Pwyllgor Rhanbarth Barri.
**£10.00:**
Pwyllgor Rhanbarth Castell Nedd; Pwyllgor Rhanbarth Gorllewin Caerdydd; Rheinallt Jones, Carmel.
**£25.00:**
Pwyllgor Merched Arfon.
**£50.00:**
John & Eleri Higgins, Bontnewydd.

*Dymunaf ddiolch o galon i'r rhai a gyfrannodd hyd yn hyn i Gronfa Goffa Wmffra Roberts. Mae'r Gronfa yn parhau yn agored a byddaf yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau pellach.*

*Dewi Tomos,*
*Trysorydd Gronfa Goffa Wmffra Roberts,*
*Gwelfor,*
*Rhostryfan,*
*Gwynedd.*



**Peidiwch â chyhuddo gormod ar ein pobl ifanc ni yn galifantian a cherdded strydoedd. Hogia' o Fethel yw'r rhain yn mwynhau eu hunain ym Mhwll Nofio Ysgol Treborth. Apeliodd rhain ar i rywun drefnu iddynt gael mynychu'r lle, — ac fe atebwyd eu cri.**


## Gwesty Dolbadarn

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol





**ARCHEB BLWYDDYN ECO'R WYDDFA**
**Drwy'r post (12 rhifyn)**
**£2**

**Enw** ______________

**Cyfeiriad** ______________

______________

______________

**Anfoner at y Trefnydd Gwerthiant : Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.**


### BOOTS AM FYND YN DDWYIEITHOG

**Mewn ateb i lythyr gan Mr. W.A. Jones, Dalar Deg, Llanrug at Boots y Fferyllwyr, datgelodd Mr. Ridley Thompson, Cyfarwyddwr Boots fod ei Gwmni am roddi arwyddion dwyieithog i fyny yn y canghennau hynny a oedd yn cyflogi gweithwyr Cymraeg, a lle mae'r iaith Gymraeg mewn defnydd rheolaidd. Maent am ddechrau ar y gwaith yn y dyfodol agos. "Bydd datblygiadau pellach yn dibynnu ar ymateb ein cwsmeriaid", meddai Mr. Ridley-Thompson.**

**Da gweld fod llu o "siopau bach" yr ardal yn mabwysiadu'r polisi yma ers blynyddoedd.**

## MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

**Yng nghyfarfod blynyddol y mudiad a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Ysgol Brynrefail, Llanrug, penderfynwyd yn unfrydol i rannu Gwynedd yn dri rhan, sef Aberconwy, Arfon a Dwyfor.**

Gyda llawer mwy o ysgolion meithrin yn agor ar hyd a lled Gwynedd teimlwyd mai gwell fuasai rhannu yn dri er mwyn hwylustod cysylltu â'r ysgolion a dod i adnabod y rhai sy'n gweithio ynddynt.

Y mae yn Arfon ar hyn o bryd bedair-ar-ddeg o ysgolion a phedair arall ar fin agor. Y mae'r plant, yn Gymry a Saeson, yn dechrau dod i'r ysgol feithrin pan yn ddwy a hanner oed hyd nes cânt ddechrau yn yr Ysgol Gynradd.

Fe etholwyd y swyddogion canlynol i weithredu ar bwyllgor Arfon: Gwenda Jones, Tregarth (Llywydd); Kathleen Jones, Caernarfon (Is-Lywydd); Eryl Roberts, Sycharth, Llanrug (Ysgrifennydd); Beryl Jones, Waunfawr (Is-Ysgrifennydd); Glenys Williams, Pen-y-groes (Trysorydd).

Os oes rhywun a diddordeb mewn dechrau Ysgol Feithrin mewn unrhyw ran o Arfon, cysyllted ar unwaith â'r Ysgrifennydd, unrhyw un o'r pwyllgor, neu â Mrs. Mair Jones, Tyllan, Llanystumdwy, Cricieth (Ffôn: 2542).

Y mae pedwar o gyrsiau diddorol yn cael eu trefnu ar gyfer y flwyddyn nesaf i rywun sydd â diddordeb yn yr Ysgol Feithrin — bydd y cyntaf yn cael ei gynnal yn Waunfawr ddiwedd Medi, felly gwyliwch yr hysbysebau.

# Colli Cyfaill

**Noson o'r blaen, Gorffennaf yr ail i fod yn gywir, "llithro i'r llonyddwch mawr yn ôl", fel y dywedodd T.H. Parry-Williams, oedd hanes Bob Jones, Tŷ Coch, Brynrefail, Gwynedd.**

**Credaf fod dyfyniad o weithiau T.H. Parry-Williams yn gymwys iawn, gan i ni ein dau ddyfynnu'r athrylith yma o'r Rhyd Ddu laweroedd o weithiau, yn enwedig pan '...yn chwipio'r dŵr**
**A rhwyfo plwc yn awr ac yn y man".**
**ar Lyn y Gadair, Llyn Cwellyn, Llyn Peris, Llyn Padarn, Llyn... wel mae'r rhestr yn ddiddiwedd.**

**Yn y soned hon hefyd mae'r cwpled a ganlyn:**
**'Fel adyn ar gyfeiliorn neu fel gŵr**
**Ar ddyfroedd hunlle'n methu cyrraedd glan.'**

**Cafodd Bob Jones dynnu ei lun filoedd o weithiau yn y sefyllfa arbennig yma gan gwmniau ffotograffig enwog oedd yn tynnu 'Cardiau Post' o olygfeydd yn Eryri. Cafodd dynnu ei lun yr un mor aml gan ymwelwyr di-ri' a stelciai yn y *laybyes* ar y ffordd rhwng Pen y Llyn, a Chwarel y Glyn, pan fyddai'n pysgota yn y cwch gwyn ag ymylon gwyrdd ar Lyn Padarn.**

**Yn y deunaw mlynedd diwethaf yma deuthum i'w adnabod yn dda. Cofiaf fel pe bai ddoe, yn hogyn, newydd adael y "Cownti Scwl" fynd yn swil am Dŷ Coch i chwilio am blu pysgota. 'Roedd Bob yn arbenigwr ar gawio plu, ac os oedd gan brentis o enweiriwr blu o waith y meistr ar ei flaen llinyn, roedd yn sicr o ddal — cymaint oedd eu enwogrwydd a'u hedmygedd o'i wybodaeth am gyfrinachau erwau pysg Dyffryn Peris.**

**'Tydw i ddim yn gwybod pam, ond rhywfodd fe gymerodd Bob ata'i a finnau ato fynta megis, ac o dipyn i beth deuthum yn gydymaith lled gyson iddo ac yn bartner yn y cwch!**

**Buan y sylwais mai nid pysgotwr gwych yn unig ydoedd Bob. Gwyliai symudiadau a digwyddiadau byd anian yn fanwl, ac er na fedrai roddi y termau gwyddonol am gyfrinachau Natur siaradai amdanynt mewn brawddegau prin ond mynegol a ddangosai ei fod wedi meddwl a deall llawer amdanynt.**

**Roedd iddo ochr arall hefyd. Ni all neb gyhuddo Bob o wneud sioe o'i grefydd na'i fyw, ond credai â'i holl hanfod.**

**Un noson fendigedig ym mis Gorffennaf rhyw chwe mlynedd yn ôl, a minnau yn disgwyl bachiad ar y torgochiaid ac wedi angori'r cwch 'o flaen ceg tynal', dechreuodd y troellwr swnian rhywle yng nghysgod Coed Fachwen. Roedd yr haul yn gwneud "Eryri yn dapestri o liw" a'r llyn yn llonydd fel gwydr...**

**"Honna, — be' 'di nymbar hi hefyd? Ydi un o fy ffeforet i yn y llyfr emynau...**
**'Dy ddoniau Di o'm hamgylch maent**
**Bob awr yr wyf yn byw'," meddai**

**'Byw' yw'r gair mawr yn y llinell olaf yma, ac fe wnaeth Bob hynny. Byw yn ddistaw, yn ddiffwdan ond yn gymwynasgar. Byw ei fywyd gan ddilyn ei ddiddordebau a'u mwynhau i'r eithaf. Mwynhau sgwrs ar noson arw yn y Gaeaf yn y gegin fach pan ruai'r gwynt yng nghorn y simne. Sôn am hyn a'r llall, a chymeryd egwyl oddi wrth y bluen a fyddai yn y feis ar ei hanner. Mwynhau eistedd ar y fainc o flaen ei sied wrth ochr y tŷ, rhyw fygyn bach ac edrych ar ei ardd, a oedd fel pin mewn papur. A phan nad oedd yn gwneud un o'r rhain neu ar y llyn neu i lawr ar y 'marddwr' ar y Seiont, yna cyn sicred â dim buasech yn ei gael yn stelcian neu stwna tua Pen y Llyn ac efo'r cychod.**

**Fel y dywedwyd gan y Parch. Angell Jones yn ei gynhebrwng syml, ond nodweddiadol o Bob, ar y pumed o Orffennaf: "Ma Robert Jones, fel Seimon, Andreas, Iago ac Ioan wedi ei alw bellach oddi wrth ei gwch." Mae'r gêr yn segur a'r rhwyfau a'r toleri'n llonydd rwan. Ni chama'r bysedd celfydd gampweitha mewn plu ar sidan ar fachau eto, y bysedd a allai chware 'Largo' Handel yn eitha Meistrolgar!**

**Ni fydd chwaith yn selog fel hoelen ar fore Sul yn ei sedd dan y ffenestr yng nghapel Brynrefail nac ychwaith yn cadw ambell gownt i'r eglwys honno.**

**Bydd priod, brawd a chwiorydd yn teimlo oerfel y llonyddwch yn fwy na neb yn sicr, ond bydd cysur yn y cofio am y gwerinwr distaw, dawnus hwn o Gwm Peris.**

**Drwy un o'r 'hogia pysgota' cafodd y Prifardd Dic Jones wybod amdano, ei natur a'i ddiddordebau — a dyma englyn a wnaeth i Bob Jones, pysgotwr, chwarelwr, gwerinwr.**

**Bob y Llyn**
**Doethor gwych y dŵr uchel; — a'i ddileit**
**Yw'r ddau lyn a'r chwarel,**
**Y torgoch o'i fyd dirgel**
**A'i wibio gwyllt, Bob a'i gwêl.**

**Mae Bob bellach wedi mynd, ei weddillion wedi eu dwyn i Amlosgfa Bangor yn ôl ei ddymuniad, ond i mi a fu gymaint yn ei gwmni, os caf aralleirio tipyn ar ddiweddglo "Bro" Parry Williams:**
**"Nid creu balchderau mo hyn gan un o'i go**
**Mae darnau ohonof ar wasgar hyd y fro."**

*N. Closs-Parry*

## CWMWL DU DROS Y FRO

Syfrdanwyd y fro pan glywyd am ddamwain angeuol a ddigwyddodd ger Ynys Iago bythefnos yn ôl pan fu gwrthdrawiad rhwng dau gar.

Lladdwyd Mrs. Linda Vaughan Williams o Ynys Iago ac anafwyd ei dwy ferch fach, Sharon ac Alison. Aethpwyd a'r genethod i Ysbyty Môn ac Arfon yn dioddef o niweidiau difrifol. Cadwyd teithwyr y car arall yn yr ysbyty hefyd.

Estynnwn, drwy Eco'r Wyddfa, gydymdeimlad llwyraf yr ardal â Mr. Islwyn Williams a'r teulu ar golli gwraig a mam annwyl.

## PELDROEDWYR IFANC

Datganiad pwysig iawn i unrhyw fachgen sydd yn awyddus i chwarae i dim pel droed dan bymtheg oed Llanberis, ac sydd o dan bymtheg ar y 6ed Awst, 1976.

**Cynhelir treial ar Ddol y Goeden nos Fercher, Awst lled am 6 o'r gloch.**


**JACOB A. JAMES**
**Regent House · Deiniolen**
Ffôn: LLANBERIS 461
**GROSER PENIGAMP!**
DEWCH I WELD DROSOCH EICH HUN
6


**E.W.&M.WILLIAMS**

**Y BECWS**
**DEINIOLEN**
FFÔN : LLANBERIS 232
BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !
*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*
***
DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN,
PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............
*Eric Morris*

**Arvonia Coaches**
**LLANRUG**
FFÔN WAUNFAWR 254



**Daeth Draenog ar draws un o'r camgymeriadau cyfieithu mwyaf gweladwy yn y fro wrth deithio ar ei feic o le i le. Felly dyma gystadleuaeth i blant bach dan 6 oed. Ffeindiwch y camgymeriad!**

## SEFYDLIAD Y MERCHED

**Dathlodd Sefydliad Bethel ei benblwydd yn ddeg-ar-hugain oed nos Wener, 18fed o Fehefin gyda gwledd yng Nghastell Rhuthun, ac ar yr achlysur fel hyn y canodd Selwyn Griffith iddynt.**

Llongyfarchion cynnes
Ddymunwn yn ddi-oed
I'r Sefydliad yma
Sy'n ddeg-ar-hugain oed.
Sefydliad Merched Bethel,
Y gorau yn y fro,
O Saron, Cremlyn, Seion,
O Benrhos a Thrego.

Os dewch i'n cyfarfodydd
Cewch hwyl a sbri gwerth chweil,
Does yma neb yn swancio
Na neb yn dod mewn steil,
Cewch yma gwmni diddan
Os trowch i mewn am dro
Cewch dreulio orig ddifyr
Hefo merched gorau'r fro.

A dyma ni mewn Castell
Yn dathlu ein penblwydd
A mynnwn ymfalchio
O gofio am ein llwydd.
Ymlaen yr awn yn weithgar
Yn ddiwyd iawn, heb oed
Pob llwyddiant nes y byddwn
Yn dathlu'n trigain oed.

### ECO'R WYDDFA

Da yw gweld bod ardal arall
Wedi cychwyn papur bro,
Ynddo cawn hanesion difyr
Gwerth eu cadw byth mewn co'.

Nid anghofir byth y Chwarel
A'r atgofion sydd yn bod,
Tra bo papur fel yr Eco
Am gofnodi 'Cyfnod Clod'.

Da bob mis cael darllen ynddo
Ddigwyddiadau yn 'y wlad',
Sydd yn falch o'i holl brydferthwch —
Rhodd o Dduw am dâl mor rhad.

Mae llawenydd llawer heddiw
Yma'n tystio am y nerth
Sydd yn dod o'i dudalennau —
Llawn o hwyl a mawr eu gwerth.

Llongyfarchwn bawb sy'n gweithio
I'n difyrru ni bob mis
Yn yr Eco gwerthfawr yma,
Am wyth geiniog, rhad ei bris.

*Geraint W. Edwards.*
*(Ficer Penisarwaun a Llanddeiniolen)*



W'sos diwetha' gwerthwyd hotel grandia Llundain. Y Dorchester, am £9,000,000. Dymuna Draenog ddatgan nad oes unrhyw wir yn y si bod teulu McAlpine am ddefnyddio rhan helaeth o'r £9,000,000 i wella amodau gwaith a chyflogau eu gweithwyr yn y twnnel yn Ninorwig.

## Y BARDD COCOS YN DEUD

*13, Ceunant St.,*
*Llanberis.*

*Annwyl Syr,*

*Ga'i yn gyntaf eich llongyfarch ar lwyddiant 'Eco'r Wyddfa'. Mae hi'n "ffeit" yn tŷ ni bob tro mae'r papur yma'n dod yma (ffeit rhwng y plant ydw i'n feddwl — y ddau eisiau'r papur ar unwaith). Ond rwyf yn meddwl fy mod wedi dod dros yr anhawster hwn, — ie, prynu dau.*

*'Roeddech yn gofyn am ryw hanes o'r ddamwain a fu yng Nghwm-y-Glo.*

*Fe ddigwyddodd ar ddydd Mercher, y 30ain o Fedi, 1869. Lladdwyd pump o ddynion a chlwyfwyd llawer. Enwau'r trancedigion oedd David Roberts, Evan Jones, Robert Morris, Griffith Jones a John Jones. Mae'n siwr eich bod wedi clywed am y Bardd Cocos yn'do? Wel, fel hyn y canodd o am y ddamwain :*

Dwy drol a lwythwyd â'r Olew Niter Cliw,
Cymerodd y ddamwain fawr le, tan y Ne,
ar y ffordd i Lanberis,
gerllaw Cwm-y-Glo, ar gyfer y fro,
pump o ddynion a laddwyd,
ac a glwyfwyd, ac a laddwyd,
a dau o geffylau.
A dwy drol a wnaed yn chwilfriw mân gan nerth y Nitro Olew a'r tân,
a chnawd ac esgyrn y bobl
a faluriwyd yn chwilfriw mân.
A'u heneidiau ddisgynasant
i'r tragwyddoldeb maith
oddi ar y ddaear laith,
a chipiwyd mewn sydynrwydd
oddi wrth eu gwaith.
Pa un parod, ai amharod
i roddi cyfrif manwl i'r Barnwr
doeth, yn bur noeth.
A'r cerrig a ffrwydrwyd
a lladdwyd a chlwyfwyd ein cydgreaduriaid gan nerth yr ergyd fawr
o dan y wawr.
Darnau o goesau a thraed oedd i'w gweld,
darnau o glustiau, darnau o freichiau,
pen a thafod, a mennydd, a chalonnau
oeddent i'w gweld ar wasgar wedi eu lluchio am filltir o'r ffordd.
Yr oedd hyn yn gryn glwy
drwy yr holl blwy,
yn ddigon i hollti
y galon yn ddwy.
Gan gasglu darnau cyrff gwasgaredig
at ei gilydd mewn cynfasau.
Fe gynhaliwyd cwest y crwner
a'u claddu mewn daear laith,
wedi eu cipio mewn sydynrwydd
oddi wrth eu gwaith
i'r tragwyddoldeb maith.
Pa un bynnag ai parod ai amharod
i roddi cyfrif manwl i'r Barnwr doeth
yn bur noeth.
Roedd yno wragedd gweddwon
yn wylo ac yn galaru ar ôl eu gwŷr.
A'u dagrau ffrydlif dros eu gruddiau ddydd a nos,
a'u bronnau'n brudd — nos a dydd.
Yn dwys ochneidio, yn methu peidio,
a'r plant bach amddifad yn gweiddi,
pa le mae 'nhad bach yn awr?
Fe luchiwyd pennau rhai capelydd a thai,
ni ŵyr neb pa le yr oedd y bai,
gan nerth yr ergyd fawr o dan y wawr,
fe dorrwyd ffenestri fel darnau o lestri
fe grynodd partia o'r ddaear laith
am filltiroedd maith.
gan nerth yr ergyd fawr o dan y wawr.
Yr oedd hyn yn gryn fraw ar bob llaw.
Dywedasant y naill wrth y llall
dyna ddaeargryn yn siŵr
wrth glywed y fath stŵr.
Roedd yno olwg erchyll iawn
o fwg a gwg, a thân,
A'r bobol oeddynt yn rhedeg yn ôl ac ymlaen
wrth weld y ddamwain fawr ddiraen.
Roedd yno dwrw, a tharo a therfysg
a phawb mewn chwys, a brys, a braw
yn rhedeg yma a thraw ar bob llaw.
Ni fuodd ddim y fath ddamwain
â'r ddamwain hon
tu fewn i derfynau Cymru
erioed o'r blaen.
Mae galar mewn llawer tŷ,
a gweddill o'u cyrff yn y ddaear ddu,
ac yn ymborth i lawer pry.
Fe fydd coffadwriaeth am y ddamwain hon
o oes i oes, o genedl i genedl.
Y naill ar ôl y llall,
dros oesoedd maith y byd
tra byddwn ni yn gorwedd mewn lle clyd.
O, chwarelwyr dewr a chreigwyr cywrain,
cymerwch ofal mawr —
rhag ichi gael damwain fawr
gan ryw nerth ergyd fawr
a'ch hyrddio i dragwyddoldeb mawr.
Mae'r Niter-cliw yn addas at ei waith
i luchio'r meini mawr
o'u sylfeini dan y wawr
nid oes dim rheol ar ei elfen
Mae o'n wylltach na'r powdwr gwn.
Sôn am ddamwain fawr
sydd dan y wawr,
Mae hyn yn rhyw ddiben mawr — gan y Bod Mawr.
Mae rhyw chwildroad i fod
cyn sicred â throad y rhod
ar yr hen ddaearen cyn bo hir —
a dweud y gwir.

Bardd Cocos.

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Goronwy Lewis.*

### GWERTHFAWROGIAD

Diolch i Mr. Gareth Roberts, Gregynog, Llanrug am ei rodd o £2 tuag at gronfa sefydlu Eco'r Wyddfa. Mr. Roberts enillodd wobr y croesair ym mis Mehefin a rhoddodd y wobr yn ôl.

Rhoddodd Mr. Elfed P. Morris, 4, Rhes Efrog, Llanberis, enillydd y mis diwethaf ei arian yn ôl fel rhodd i'r Eco.

10% oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

E. WILSON HUGHES
84 Stryd Fawr
LLANBERIS FFÔN 491


MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD


GWILYM JONES
Monumental Works
LLANRUG
FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# HEBOG Bach

*Cyhoeddir y dudalen hon gyda chydweithrediad Gwasg Gwynedd, cyhoeddwyr HEBOG, y comic misol.*




## llyfrau

**YSGOL WAUNFAWR 1876-1976.**

**Gan mai eleni yw canmlwyddiant ysgol Waunfawr, cyhoeddwyd llyfr i ddathlu'r achlysur. Casglwyd ynghyd ddeunydd sydd yn olrhain ac yn croniclo hanes yr ysgol gan y Prifathro presennol Mr. Leslie Jones.**

Gellir olrhain hanes yr ysgol yn ôl mor bell a 1863 trwy gyfrwng llyfrau log ond y ffynhonnell bwysig oedd papurau Bryn Pistyll. Papurau oedd rhain yn ymwneud â'r ysgol ac a gadwyd gan yr Henadur R.O. Jones, ac yn ddiweddarach gan ei ferch sef Mrs. Eunice Davies, Glanfa.

Yn ôl Mr. Leslie Jones: "cadwodd yr Henadur R.O. Jones nodiadau Cyfarfodydd y Bwrdd, copiau o lythyrau a anfonodd, llythyrau a dderbyniodd gan rieni, athrawon a swyddogion, dogfennau a chynlluniau."

Ac ar ôl oriau difyr yn darllen rhain ar ran Mr. Jones a chydweithrediad Mr. Rhodri Prys Jones, Swyddog Addysg, Adran yr Archifydd y daeth y llyfryn i fod.

Dyma werth 25c o ddarllen pleserus a diddorol. Chymer o fawr o amser i'w ddarllen i gyd. Mae o ar gael yn y siopau yng Nghaernarfon. Argraffwyd gan Wasg Gwynedd.

**"ANNWYL GYFEILLION" – Gwasg Gomer. Pris 50c.**

Glywsoch chi hanes Wil Napoleon a'i ffrind Mons yn dod wyneb yn wyneb â Sieinead mewn llys barn? Wyddoch chi pwy oedd y PRIF ACTOR yn y ffilm "The Inn of the Sixth Happiness"? Pwy roddodd hanner coron o fet hefo Bob Jones y bwci y buasai ceffyl yn ennill y 2,000 gini, y Derby a'r Leger yr un flwyddyn? Sut bobol oedd Cynan, Syr T.H. Parry-Williams a Gwenallt go iawn? Pwy oedd y tynnwr coes mwya' a welodd Cymru erioed? Beth aeth i fyny Bwlch Llanberis yn y gêr uchaf hyd y diwedd...... a beth......? Na, â i ddim pellach oherwydd mae'r cwestiynau yma a llawer i gwestiwn arall yn cael eu hateb yn llyfr diweddaraf John Roberts Williams, Cynrychiolydd y BBC yn y Gogledd, ac sy'n byw ar hyn o bryd ym Minffordd, Llanrug.

Os ydych chi'n sychedu erbyn hyn am oleuni ar y cwestiynau, wel, ewch, da chi, i lawr i'r dre' a phrynwch y llyfr. Dydio ddim yn ddrud (rhy rad yn fy marn i), ac mae'n hawdd ei ddarllen! Un o'r llyfrau bach 'poced' yna gan Wasg Gomer ydi o, a diolch iddynt hwy am gael y weledigaeth i gyhoeddi deg o ysgrifau y llenor dawnus a diymhongar hwn.

Un bai mawr – 'does 'na ddim digon ohono fo ond peidiwch â phoeni, mae John Roberts Williams yn ymddeol yn fuan ac efallai y cawn gyfle i flasu mwy o'i waith.

**BWYD I BAWB Pocedlyfrau'r Lolfa - Pris 85c**

**Llyfr hynod o ddefnyddiol ar gyfer y wraig (a'r gŵr) normal, gyffredin gan ferch o Lanberis – Mrs. Rhian Williams.**

Bu Rhian ar un cyfnod yn athrawes goginio ac yn cynnal colofn goginio Y Cymro. Mae Rhian yn byw ar hyn o bryd yn Cilcennin ger Aberaeron, lle mae ei gŵr, William Williams (Penisarwaun gynt) yn Brifathro.

Cynnwys y llyfr 88 o risetau syml, sydyn. Yn ôl y Lolfa, "nid llyfr i'w adael ar y bwrdd coffi yw hwn – ond un i'w gadw ar y silff, nesa' at y ffwrn". (popty).

Mae'r risetau wedi eu trefnu'n daclus yn ôl tymhorau'r flwyddyn gyda'r hylif, pwysau a'r tymheredd yn cael eu nodi. Dwi'n meddwl y tria i Ratatouille yr Haf 'ma, Cochidio yn yr Hydref, Vichyssoise yn y Gaeaf a Kedgeree tua'r Gwanwyn. Os na fydd rheini'n plesio gallaf droi at rifau 5, 18 a 72, sef Omled, Teisen Gri a Lobscows.

Brysiwch i'w brynu. Dwi'n ama' dim na fydd hwn yn mynd fel "hot cêcs"!


Rhian Williams

**CERDDI AC ATGOFION TWM BETHEL gan T.H.Jones. Gwasg y Tir. 50c.**

Dyma ail gyfrol T.H.Jones yn ymddangos. I mi, y mae'r ail gyfrol yn fwy diddorol na'r gyntaf oherwydd cynnwys yr atgofion. Â'r atgofion â ni'n ôl hyd lwybrau geirwon Chwarel Dinorwig a chyfarfod â chymeriadau eithriadol yng nghaban Pen Garret megis Robin Tŷ Mawn, Llanberis; Owen Foulkes o Frynrefail, Dic Betws ac eraill. Cawn hanesion am hen gymeriadau Bethel ynddo ac fe gynnwys Twm ei daith yn y fyddin. Ond blwyddyn fwyaf cofiadwy bywyd Twm oedd y flwyddyn chwe-deg-naw! Be' ddigwyddodd iddo yn chwe-deg-naw, meddech chi? 'Does ond un ffordd o ffeindio allan – prynu'r llyfr.

# Manion

## MERCHED Y WAWR YN Y JÊL

Aeth Merched y Wawr Cangen Llanrug i garchar Biwmaris (a chael dod adref) nos Fawrth y 6ed o Orffennaf, yng nghwmni Rhodri Prys Jones, o adran yr Archifydd, Gwynedd.

Yna aed i'r Gaerwen a chael swper yn y Star Hotel a dod adref yn "Gennod y Nos",

Bydd y tymor nesaf yn dechrau ar y 7fed o Fedi. Croeso i aelodau newydd ymuno.

## DIOLCH

*Diolcha Mary Lyn a John, 8, Rhos Saron, i Eco'r Wyddfa am y llongyfarchiadau iddynt ar enedigaeth eu mab bach, Dyfan Siôn, ac hefyd geisio diolch am yr holl gardiau, anrhegion a dymunadau da y llu caredigion a dderbyniwyd Maent wedi eu synnu gan yr holl garedigrwydd; a diolch o galon i bawb yn ddiffuant.*

## ANGEN YW MAM DYFAIS O HYD

Fel tipyn o arweinydd seindorf Llanberis penderfynais un noson yn ddiweddar 'ma, roi 'Viva Espana' yn fy rhaglen ymarfer. Gwelir yn ôl yr enw fod naws Sbaenaidd yn angenrheidiol os am fynd i wir ysbryd y darn.

Siaredais â'r hogia mewn hwyliog dermau y buasai 'castanets' yn gwneud byd o wahaniaeth; ac yn sydyn dyma lais o'u mysg yn gweiddi 'Never fear – Thomas is here', Y peth nesaf welwyd oedd Jack Thomas yn tynnu set gyfan o ddannedd gosod o'i geg ac yn dynwared y sŵn hudolus.

"Reit hogia", medda finnau, "Cadwch i lawr i ni gael y peth yn effeithiol", a dyma roi'r 'down beat' – mynd â'r hwyl i'r eithaf.

Y canlyniad, wrth gwrs, dim ond sŵn dannedd Jack yn clecian yn hynod o soniarus a'r gweddill o'r seindorf yn lladd eu hunain yn chwerthin, cystal ag unrhyw ffisig, a hwyrach mai'r digrifiwch yna sy'n rhan o Jackie Thomas a enillodd iddo y 'Military Medal' yn y 1939-45.

*Gordon Ward*

**S.H.W.**
**(i weinidog ffyddlon a da)**

**Cerdded fel ei Waredwr, drwy ei oes**
**Yn driw gymwynaswr;**
**Bu fel tad ei safiad siwr,**
**Bu'n addurn fel bonheddwr.**

**Anwylodd fro Deiniolen, a'i air hoff**
**A roi hedd mewn angen;**
**Ar aelwyd, torrai heulwen**
**Dan wawr iach ei dyner wên.**

**Wyneb sant, nid B.Sc., a welem**
**Yn olau yn Stanley;**
**Ein nodded fu ei weddi,**
**A'i fawr ras yn fythol fri.**

**Brwd i hau fu'n brawd o hyd, a brwd oedd**
**Ei briod ef hefyd;**
**Wedi'r hau, fe godir ŷd,**
**Gwelwn gynhaea'u golud.**


**Llanfwrog** **J.R.**


DYDD MERCHER A DYDD IAU
4 a 5 AWST

SIOE AMAETH-YDDOL GOGLEDD CYMRU 1976

AR
FFERM TYDDYN HEN
CAERNARFON

**Dowch â'r teulu i gyd**
**Cewch barcio am ddim**

**SIOE AMAETHYDDOL FRENHINOL CYMRU 1976**

*Caseg wedd 6 oed, Edingale Wendy, Pencampwr benywaidd ac Is-bencampwr y Sioe, yn deilwng o fynd i'r "Horse of the Year Show" yn Wembley mis Hydref eleni i gystadlu yn y "Gystadleuaeth Golden Guinea", yr unig Gymro yn y sioe yn yr adran yma!*

*Yn y llun gwelir hi gyda'i pherchennog, W.H. Griffiths, Llys, Bryn-refail, sef Cadeirydd Pwyllgor Merlod Sioe Gogledd Cymru ac Is-gadeirydd y pwyllgor gwaith.*

# SIOE AMAETHYDDOL GOGLEDD CYMRU

**Cynhelir y Sioe ar y 4ydd a 5ed o Awst, yn Fferm Tyddyn Hen, Caernarfon.** Mae llawer o adrannau, a dosbarthiadau newydd, wedi eu trefnu ar gyfer eleni, a maint helaeth o dlysau a chwpannau fydd yn cael eu cyflwyno am y tro cyntaf, wedi eu anrhegu. Mae trefn y Sioe wedi newid dipyn hefyd, gan fod gwartheg a defaid yn cael eu barnu ar y ddau ddiwrnod yn lle ar y dydd cyntaf fel yn y gorffennol, ac mae yn amlwg o'r gofynion sydd yn dod am Restr Gwobrau y bydd y gefnogaeth yn fwy nag erioed.

Fel arfer mae cadwyn o ddosbarthiadau cynhwysfawr yn adran y Gwartheg Duon, Hereford a Fresian, ac yn ychwanegol eleni cynhelir dosbarthiadau i wartheg godro o'r bridiau Ayrshire a Channel Island, gyda phrif-bencampwriaeth yn adran y gwartheg llaeth. Bydd y bridiau yma yn cael eu barnu ar y dydd cyntaf o'r Sioe.

Y llynedd cynhaliwyd adran-lwyddiannus i'r gwartheg Charolais, a phenderfynwyd eleni ychwanegu dau ddosbarth arall yn yr adran yma. Bernir rhain ar yr ail ddiwrnod gydag adran y Gwartheg Tewion.

Cawn adrannau y gwahanol fridiau o ddefaid ar y dydd cyntaf gyda dosbarthiadau Defaid ac Wyn Masnachol ar yr ail ddydd.

Fel ym mhob Sioe, mae Adran y Ceffylau yn boblogaidd dros ben, a diddorol iawn yw gweld rhif y ceffylau gwedd yn cynyddu bob blwyddyn. Mae'r ceffylau gwedd wedi chwarae rhan bwysig yn hanes y Sioe gan fod y Sioe gyntaf wedi cael ei chynnal o dan nawdd "The Caernarfon Heavy Horse Society" yn 1881, yn yr hen Bafiliwn yng Nghaernarfon. Diddorol fuasai cael mwy o wybodaeth neu, os yn bosibl, cael gweld hen luniau am y sioeau cynnar yma.

Fel mae'r Gwartheg Duon Cymreig a'r Defaid Cymreig yn boblogaidd yn ein hardal ni, hefyd yn yr un modd mae'r Merlod a Chobiau Cymreig yn creu diddordeb enfawr, a rhaid oedd trefnu mwy o ddosbarthiadau ar gyfer rhain eto.

Eleni arloeswn unwaith eto, a chawn ddosbarthiadau o frid newydd o ferlod yn y Sioe. Daw rhain o ben eithaf yr Alban, sef Ynysoedd y Shetlands, a diddorol iawn fydd gweld y merlod bychain hyn sydd heddiw mor boblogaidd ledled y wlad. A thra yn ymdrin â'r perthnasau lleiaf o fyd y ceffylau, ni ddylid anghofio am y mulod, ac yn ogystal â'r dosbarthiadau arferol i rhain, bwriedir cael arddangosfa arbennig ohonynt mewn harnais yn llusgo celfi trin tir a addaswyd ar eu cyfer.

Rhoddir gwobr newydd am bensaerniaeth mewn adeiladau amaethyddol. Pwrpas y gystadleuaeth hon ydi tynnu sylw at le pensaerniaeth mewn amaethyddiaeth. Gall yr adeiladau fod yn gysylltiedig â bridio, magu a cadw anifeiliaid, neu yn ymwneud â thriniaeth y tir.

Wrth gwrs, ni fyddai braslun fel hyn yn llawn heb sôn am gelfyddyd a chadw tŷ a chynnyrch gardd a fferm, ac eleni eto, fel yn y gorffennol, mae adrannau eang ar gyfer rhain yn y Sioe.

Ceir manylion pellach o weithgareddau Cymdeithas Amaethyddol Gogledd Cymru, oddi wrth yr Ysgrifennydd Da Byw, Mrs. Miriam Hughes, Rallt Deg, Cwm-y-Glo, Caernarfon. Ffôn: Llanberis 416.